# *THE MACHINE* (James, 2013)
## Dosbarthu ac arddangos 1

**Wrth i chi wylio'r cyfweliad a gafodd ei ffilmio, gwnewch nodiadau ar y canlynol cyn gweithio ar y tasgau mewn parau neu grwpiau:**

- **Beth mae mae'r gwneuthurwyr ffilm yn ei ddweud am arwyddocâd dangos y ffilm am y tro cyntaf yng ngŵyl ffilmiau Tribeca yn Efrog Newydd – gŵyl sy'n arbenigo mewn dangos ffilmiau annibynnol. Beth mae hyn yn ei awgrymu am y rôl y mae gwyliau yn ei chwarae wrth farchnata ffilmiau? Beth mae'r gwneuthurwyr ffilm yn ei olygu wrth siarad am wyliau ffilm fel 'marchnadoedd'?**
- **Beth maen nhw'n ei ddweud am bwysigrwydd posteri ffilm wrth farchnata *The Machine*?**
- **Beth maen nhw'n ei ddweud am arwyddocâd rhaghysbyseb y ffilm wrth ei marchnata?**
- **Beth maen nhw'n ei ddweud am bwysigrwydd Toby Stephens a Caity Lotz i'r ffilm?**
- **Beth maen nhw'n ei ddweud am rôl y cyfryngau cymdeithasol wrth hyrwyddo a marchnata'r ffilm?**
- **Beth mae'r gwneuthurwyr ffilm yn ei ddweud am y ffordd y mae arddangos ffilmiau wedi newid yn ystod y pum mlynedd diwethaf, a'r hyn maen nhw'n ei ddweud am yr effaith mae arddangoswyr fel Netflix yn ei chael ar y diwydiant ffilm?**

## Tasg 1

**Gwnewch ychydig o waith ymchwil ar-lein i rai o'r gwyliau ffilm allweddol rydych chi'n gyfarwydd â nhw. Gallech chi ddechrau â Cannes efallai. Pa fath o ffilmiau mae'r ŵyl yn eu dangos? Ceisiwch roi o leiaf un enghraifft o ffilm sy'n cael ei marchnata o ganlyniad i gael ei dangos mewn gŵyl ffilmiau neu ennill gwobr mewn gŵyl ffilmiau. (Gallech chi ymchwilio i'r llwyddiant a gafodd *Whiplash*, y ffilm annibynnol o UDA sy'n cael sylw yn yr adnodd hwn, o ganlyniad i gael ei dangos yng Ngŵyl Ffilmiau Sundance).**

## Tasg 2

**Edrychwch ar brif boster ffilm *The Machine*. Sut mae'r poster hwn yn marchnata'r ffilm?**



- **Beth yw prif nodweddion y poster hwn?**
- **Pa elfennau o'r ffilm sy'n cael eu defnyddio i'w marchnata (cyfeiriad at genre, sêr)?**
- **Yn eich barn chi, pwy yw'r brif gynulleidfa debygol ar gyfer y ffilm hon, a sut mae'r gynulleidfa honno'n cael ei thargedu?**
- **Edrychwch am o leiaf un enghraifft o boster ffilm sy'n marchnata ffilm yn bennaf trwy (a) genre y ffilm a (b) seren/sêr y ffilm.**

## Tasg 3

**Edrychwch ar y rhaghysbyseb ar gyfer *The Machine*.**

- **Yn eich barn chi, pa gynulleidfaoedd fydd yn cael eu denu gan y rhaghysbyseb? Sut maen nhw'n cael eu targedu?**
- **Pa mor bwysig yw seren fel Toby Stephens, a oedd yn y ffilm *Die Another Day*, i ffilm fel *The Machine*?**

## Tasg 4

**Mae'r gwneuthurwyr ffilm yn dweud eu bod wedi gweithredu fel eu dosbarthwyr eu hunain, oherwydd nid oedden nhw wedi gallu dod o hyd i'r dosbarthwr cywir ar gyfer *The Machine*.**

- **Edrychwch ar wefan The Machine. Sut mae'n cael ei defnyddio i hyrwyddo *The Machine*? Pwy yw prif gynulleidfa'r wefan hon a sut mae'n apelio at y gynulleidfa honno?**

## Tasg 5 – tasg ymchwilio a chyflwyno

**Mewn grwpiau o bedwar, gwnewch rywfaint o waith ymchwil ar-lein i bwysigrwydd y cyfryngau cymdeithasol wrth farchnata ffilmiau'n gyffredinol. Dewch o hyd i gynifer o enghreifftiau â phosibl o sut mae'r cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio i farchnata ffilmiau.**

**Ar y cyd, paratowch flog neu gyflwyniad am y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol yn *The Machine*, gan wneud cymariaethau â ffilmiau eraill rydych chi wedi ymchwilio iddyn nhw. Defnyddiwch yr awgrymiadau isod i'ch helpu gyda'ch cyflwyniad/blog.**

- **Edrychwch eto ar wefan *The Machine* i weld pa gyfryngau cymdeithasol a ddefnyddiodd y gwneuthurwyr ffilm (wrth weithredu fel dosbarthwyr). A yw'r cyfryngau cymdeithasol gwahanol yn denu rhai cynulleidfaoedd yn fwy na'i gilydd.**
- **Edrychwch ar dudalen Facebook y ffilm.**
- **Gwnewch sylw ar elfennau pwysicaf tudalen Facebook, yn eich barn chi, ar gyfer (a) dosbarthwyr a (b) cynulleidfaoedd.**
- **Gwnewch sylw ar fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer dosbarthwyr/gwneuthurwyr ffilm *The Machine*. Yn eich barn chi, i ba raddau mae'r diwydiant ffilm yn rheoli effaith y cyfryngau cymdeithasol ar gynulleidfaoedd?**